

# *Anturiaethau*



*Fflach Eirias*

# Cyflwyniad

Shw' mae! Bore da.

**Mae'n flin 'da fi**

bo' fi'n hwyr.

Fi yw Ceri Gaiman Jones

y cyfarwyddwr ffilmiau enwog.

**Fel dych chi'n gw'bod**

**dw i'n dod** o Batagonia,

yn Ne America,


yn wreiddiol,

ond **dw i'n byw**

yn Aberaeron nawr,

**ddim yn bell** o'r môr.

*dw i, rwyt ti, mae e, mae hi, dyn ni, dych chi, maen nhw*



**Dw i'n siarad Cymraeg** a Sbaeneg,  
wrth gwrs,  
Portiwgëeg,  
rhywfaint o Ffrangeg  
a tipyn bach, bach o Saesneg.  
**Dw i'n gallu darllen** a deall  
Almaeneg hefyd.

Mae'n siwr  
eich bod chi **wedi gweld**  
rhai o fy ffilmiau i,  
**ffilmiau enwog iawn** fel  
Y Chwech **Gwych**,  
Eira Wen a'r Pum Corrach  
a'r Ddau Fwscaterwr.

**Dw i newydd** ryddhau  
fy ffilm ddiweddaraf  
*Indiana Jones a'r Tri Mochyn Bach*  
ac **mae llawer o bobl**  
**yn credu**  
ei bod hi **mor dda**  
ei bod hi'n siwr o **ennill**  
**o leiaf** un Oscar  
**os nad mwy.**

Ond **dw i ddim wedi dod yma** heddi'  
i siarad am  
*Indiana Jones a'r Tri Mochyn Bach.*  
Na, **dw i wedi dod yma**  
i baratoi ar gyfer  
cyfres deledu newydd  
ar gyfer S4C sef :

## ***Anturiaethau***

### ***Fflach Eirias***

Mae hi'n gyfres **gyffrous iawn**  
sy'n sôn am ymdrechion  
Fflach Eirias,  
**(ein harwr ni oll)**  
i achub y ddaear  
rhag **dihirod dieflig**  
o ben draw'r **bydysawd.**

Gyda'r gyfres arloesol yma  
**dw i ddim isie** defnyddio  
rhyw actorion ceiniog a dimau.

*dw i ddim, dwyt ti ddim, dyw e ddim, dyw hi ddim,  
dyn ni ddim, dych chi ddim, dyn nhw ddim*

*dw i wedi, rwyd ti wedi, mae e wedi, mae hi wedi,  
dyn ni wedi, dych chi wedi, maen nhw wedi*

Na,  
**yn naturiol,**  
**dw i isie** defnyddio  
actorion **gorau** Cymru.

A dyna pam **dych chi yma.**  
Chi yw'r dethol rai  
**sydd wedi** eich gwahodd  
**i actio**  
yn *Anturiaethau Fflach Eirias.*  
**Croeso mawr** i chi,  
felly,  
i Westy Fforest  
(un o westai mwyaf moethus  
**ein gwlad**).  
**Byddwn ni'n aros yma**  
tra'n bod ni'n ffilmio'r gyfres  
ac mae'n lle **bendigedig.**

*bydda i, byddi di, bydd e, bydd hi  
byddwn ni, byddwch chi, byddan nhw*



Mae'r gwesty'n cael ei redeg  
**gan deulu**  
dymunol iawn.


Y perchnogion yw  
Rheinallt a Lleucu Gwallter,  
**pâr hyfryd,**  
ac **maen nhw'n gweithio**'n galed iawn  
bob dydd  
o fore gwyn tan nos.

**Maen nhw'n hoffi** gweithio  
yn eu gwesty  
ac maen nhw **wrth eu bodd**  
yn helpu **eu holl westeion.**  
Yn gweithio yma hefyd mae  
eu **plant** a'u partneriaid.


**Dyma Iwan.**  
**Mae e'n** drideg tri oed  
ac **mae e'n fachgen dymunol iawn.**  
**Mae e'n fachgen clyfar iawn** hefyd.  
**Mae MA gyda fe**  
mewn Cemeg  
o Brifysgol Bangor  
a PhD mewn Ffiseg Cwantwm  
o Brifysgol Aberystwyth.

*mae ....gyda fi, mae ...gyda ti, mae ....gyda fe, mae... gyda hi,  
mae... gyda ni, mae... gyda chi, mae... gyda nhw*

*gyda fi = 'da fi*



Yn ogystal â bod yn wyddonydd dawnus  
**mae e'n bianydd clasurol penigamp**  
hefyd  
ac **mae e'n chwarae'r piano**  
mewn cyngherddau  
**o bryd i'w gilydd.**



Yn lwcus iawn  
**Nos Fercher** nesaf  
**bydd e'n chwarae**  
rhai gweithiau clasurol  
**yn arbennig i ni**  
yma yn y gwesty.

**Dyma ei wraig, Siwan.**  
**Mae hi'n dod o Benrhiwceiber**  
ac **mae hi'n artist talentog iawn.**

Hi sydd **wedi peintio**  
y murluniau **gwyh**  
**dych chi'n gallu'u gweld**  
ymhob rhan  
o'r gwesty.

**Mae un mab gyda nhw**

o'r enw Bleddyn,  
sy'n bum mlwydd oed  
a dwy ferch, Siân,  
sy'n chwech  
a Mirain, sy'n flwydd a hanner.  
Mae'r tri **ohonyn nhw**  
yn blant swynol a chwrtais.

*mae ....gyda fi, mae ...gyda ti, mae ....gyda fe, mae... gyda hi,  
mae... gyda ni, mae... gyda chi, mae... gyda nhw*

*gyda fi = 'da fi*

*ohono i, ohonot ti, ohono fe, ohoni hi,  
ohonon ni, ohonoch chi, ohonyn nhw*

**A dyma** Catrin,

merch Rheinallt a Lleucu.

**Mae hi'n** naw ar hugain mlwydd oed  
ac **mae hi'n briod** gydag Arwel.

**Mae Catrin yn bensaer** enwog iawn

ac **mae hi wedi gweithio**

mewn sawl rhan o'r byd  
gyda chwmnïau pensaernïol mawr.

**Mae hi wedi ennill**

llawer o wobrau pwysig

**am ei gwaith.**

Hi yw'r un

**wnaeth** y cynlluniau


ar gyfer y gwesty'ma.

*(G)wnes i, wnest ti, wnaeth e, wnaeth hi,  
wnaethon ni, wnaethoch chi, wnaethon nhw*

**Mae Arwel yn gogydd** enwog iawn

ac mae ei brydau

bob tro'n fendigedig.



**Diolch i'w dalent**  
**yn y gegin**  
mae Gwesty Fforest  
bob blwyddyn  
yn derbyn **pum seren**  
yn yr Arweinlyfr i Fwyd Da.

**Does dim plant gyda** Catrin ac Arwel  
ond **mae**  
cath fach **gyda nhw**  
o'r enw Fflwff.

**Cyn i fi anghofio**  
well i fi ddweud  
**ychydig eiriau**  
ynglŷn â'ch ystafelloedd gwely  
a'r gwesty.  
Yn eich ystafelloedd gwely  
**mae** gwely,  
cadair a chadair freichiau,  
teledu, ffôn  
ac **mae** ystafell molchi **gyda chi**  
gyda bath a chawod.  
**Mae** tri bar coffi  
**yn y gwesty**  
pedwar tŷ bwyta,  
**pum(p) pwll nofio,**  
chwe champfa efo *saunas*,  
saith sinema  
ac wyth **cwrt tennis**.

*cyn i fi, cyn i ti, cyn iddo fe, cyn iddi hi,  
cyn i ni, cyn i chi, cyn iddyn nhw*

*well i fi, well i ti, well iddo fe, well iddi hi,  
well i ni, well i chi, well iddyn nhw*

Mae pob dim fan hyn **am ddim,**  
wrth gwrs,  
tra byddwch chi yma'n ffilmio.  
**Does dim rhaid i chi** dalu  
am ddim byd.

*rhaid i fi, rhaid i ti, rhaid iddo fe, rhaid iddi hi,  
rhaid i ni, rhaid i chi, rhaid iddyn nhw*

Ond.....Iesgyrn Dafydd!  
**Dw i'n siarad** gormod.  
**Mae isie i chi** gael  
yr allweddi  
ar gyfer eich ystafelloedd,  
er mwyn i chi allu  
**dad-bacio,**  
on'd oes?.

Nawr 'te.  
**Mae rhestr gyda fi** yn fan hyn  
o'ch enwau chi  
a rhif eich ystafell.



Os gwelwch yn dda  
**allwch chi ddod yma**  
a nôl eich allweddi  
a'ch bathodynnau?

Iawn, dyma chi.  
Rhif un dau tri .....(ac ati)  
Diolch yn fawr.

Nawr 'te,  
**cyn i ni fynd** i'n hystafelloedd gwely  
i ddad-bacio  
**a chyn i ni edrych** ar  
y sgrïpt  
ar gyfer  
rhifyn cyntaf  
*Anturiaethau Fflach Eirias*  
**dw i'n siwr** y byddech chi'n licio  
dod i 'nabod  
yr actorion eraill  
**dych chi'n mynd i weithio**  
gyda nhw  
ar y gyfres.

*byddwn i, byddet di, bydde fe, bydde hi  
bydden ni, byddech chi, bydden nhw*

Wnewch chi godi  
ar eich traed,  
os gwelwch yn dda?

(Mae pawb yn siarad)

A nawr ein bod ni'n  
**'nabod ein gilydd**  
**beth am i ni**  
edrych yn gyflym  
ar rifyn cyntaf  
*Anturiaethau Fflach Eirias.*

# *Anturiaethau Fflach Eirias*

gan Ceri Gaiman Jones



*Rhifyn 1 :*

## *Fflach Eirias a'r Spam Peryglus*

*Dydd Mawrth, Mai 28.  
10 o'r gloch y bore.  
Mae Gwenllian Llwyd Jones  
yn eistedd  
wrth ei desg,  
fel arfer,  
yn un o swyddfeydd  
Cyngor Sir Ceredigion.*

*Ar y ddesg mae  
cyfrifiadur, ffôn, dyddiadur  
a mân bethau swyddfa.*



*Mae pawb arall  
sy'n gweithio  
yn y swyddfa  
bant mewn cyfarfod  
yn rhywle arall.*

*Mae hi  
ar ei phen ei hun.  
Mae'n fore tawel iawn.  
**Dyw'r ffôn ddim wedi canu**  
o gwbl  
trwy'r bore.*

***Does neb wedi ffonio**  
i mewn  
**i gwyno**  
am ryw broblem  
neu'i gilydd.  
Does neb wedi ffonio  
**i ofyn**  
am gael ffurflen  
yn y post.*


*A does dim un  
aelod o'r cyhoedd  
**wedi galw**  
i mewn  
yn y swyddfa  
chwaith.*

***Rhyfedd iawn**  
achos  
mae'r lle, fel arfer,  
yn brysur iawn.*

***Mae Gwenllian wedi gweithio**  
yn y swyddfa  
ers tri mis  
ac yn ystod  
yr amser yna  
**mae'r lle wedi bod**  
yn llawn o bobl  
a'r ffôn yn canu  
yn ddi-baid.*

*Ond y bore'ma –  
**dim byd.***

*Gan fod **dim byd**  
yn digwydd  
**mae Gwenllian yn penderfynu**  
gwneud dishgled o de  
ac **mae hi'n cerdded**  
draw at y tegell  
sydd ar y ddesg  
ym mhen draw'r ystafell.*



*Yn sydyn,  
mae'r ffôn yn canu.  
Mae Gwenllian yn troi rownd  
ac yn cerdded  
nôl  
at ei desg.*

Gwenllian : Bore da,  
Cyngor Sir Ceredigion.  
**Alla i'ch helpu chi?**

*(G)alla i, gelli di, gall e, gall hi  
gallwn ni, gallwch chi, gallan nhw*

Llais : **Alla i** siarad  
gyda Gethin Mathews  
**os gwelwch yn dda?**  
Mae'n bwysig iawn.

Gwenllian : **Mae'n flin'da fi.**  
Mae Mr Mathews  
bant  
mewn cyfarfod  
trwy'r dydd.  
**Alla i** gymryd neges?

Llais : Na ..... Alla i siarad  
gyda Enfys Davies  
yn lle hynny?

Gwenllian : Yn anffodus  
mae hi  
mewn cyfarfod safle  
ar hyn o bryd  
**a fydd hi ddim**  
**nôl** yn y swyddfa  
tan yfory.

Llais : Beth am Peredur Pritchard?

Gwenllian : **Mâs.**  
Mewn cyfarfod.



Llais : Wel....Ydy hi'n bosib  
siarad gyda  
Alwenna Melville 'te?

Gwenllian : Mâs.

Llais : Meilyr Heilyn?

Gwenllian : Ar wyliau.  
Nage,  
**mae'n flin 'da fi.**  
**Wedi ymddeol**  
ers mis.

Llais : Hm...Mae hyn  
yn swnio'n  
**rhyfedd iawn.**  
Jest un peth  
**os ca i ofyn.....**  
Shwt ych chi'n gw'bod  
bod pawb  
mâs **mewn cyfarfod?**

Gwenllian : Achos  
**ges i e-bost**  
wrth bob un  
ohonyn nhw  
y bore'ma.

*Ges i, gest ti, gâth e, gâth hi,  
gaethon ni, gaethoch chi, gaethon nhw*

Llais : Hm.....**Dw i'n gweld.**  
**Wnewch chi** agor  
yr e-byst  
i fi,  
os gwelwch yn dda,  
i weld  
beth yw'r cyfeiriad  
arnyn nhw?


Gwenllian : O..... **dw i ddim yn gw'bod** os....

Llais : Os gwelwch yn dda.  
Mae hyn  
yn fater pwysig iawn.  
Ond **peidiwch** â phoeni.  
Does dim angen i chi  
ddatgelu  
unrhyw wybodaeth  
i fi -  
dim ond cadarnhau  
os yw pob un  
o'r e-byst  
**wedi dod**  
o'r un cyfeiriad e-bost.

Gwenllian : Wel...Iawn.  
Edrycha i  
i chi nawr 'te.  
**Wnewch chi** ddal ymlaen  
am funud  
os gwelwch yn dda?  
Gyda llaw....  
**Beth yw'ch enw chi,**  
os gwelwch yn dda?

*Beth yw'ch enw chi.....?*

Llais: Fflach Eirias.....  
ond  
jest **galwch fi'n** Fflach.



**Dw i wedi bod**  
yn gweithio  
gyda Mr. Mathews  
a'i dîm  
ers tipyn  
ar fater **cyfrinachol iawn.**



Gwenllian : .....Oh .....**'na beth od!**

Fflach : Beth.....?  
Be'sy?

Gwenllian : Mae'r e-byst i gyd  
wedi dod  
o'r un  
cyfeiriad e-bost!

Fflach : **Beth yw e?**  
[allddaearol@gofod.com](mailto:allddaearol@gofod.com)?

Gwenllian : Ie.  
Shwt oeddech chi'n gw'bod  
hynny?

Fflach : **Dim ots**  
am hynny.  
Mae'n stori hir.  
A does dim llawer  
o amser  
ar ôl gyda fi.....  
achos  
.....**mae e wedi dechrau.**

Gwenllian : Beth sy' wedi dechrau?


Fflach : Y diwedd.

Gwenllian : Y diwedd?

Fflach : Ie...  
Ond dyw hynny  
**ddim yn bwysig**  
nawr.  
**Gwrandewch** yn ofalus.  
**Bydda i** draw  
gyda chi  
yn y swyddfa  
mewn llai na  
munud.  
**Yn y cyfamser**  
dw i isie i chi.....

Gwenllian : Oh.....

Fflach : Be' sy?



Gwenllian : Mae e-bost arall  
newydd gyrraedd  
o'r un cyfeiriad.  
**Mae e'n fflachio.**

Fflach : **Peidiwch** â'i agor e.  
**Trowch** y cyfrifiadur  
bant.  
Gyflym. Gyflym.

Gwenllian : Pam?  
Be' sy'n bod?

***Yn sydyn***  
*mae'r argraffydd laser*  
*yn dechrau gwneud sŵn*  
*ac mae golau yn dechrau*  
*dod allan ohono fe.*

*Mae'r golau yn plygu nôl  
at y llawr  
ac yn ymffurfio  
yn rhyw fath o  
lun tri deimensiwn –  
yn llun o ddyn.*

*Mae'r llun yn glir iawn nawr.*

***Mae'r dyn yn gwisgo***  
*dillad coch ac aur  
ac mae e'n cario  
rhyw fath o arf.  
Mae e'n troi  
at Gwenllian  
ac yn pwyntio'r arf  
ati hi.*

***Mae e'n agor ei geg***  
*ac mae sŵn rhyfedd  
yn dod allan ohono fe.  
Ond rywsut,  
mae Gwenllian yn deall  
y geiriau.*

Iorg :           Fi yw'r Ymherawdr Iorg.  
Dw i'n dod  
o'r gofod pell  
i hawlio'ch byd chi  
i fi fy hun.  
A fydd **neb**,  
ddim hyd yn oed  
Fflach Eirias,  
yn gallu fy stopio i.

*Mae sŵn*

***chwerthin annaearyl***  
*yn llenwi'r swyddfa.  
Mae'r dyn yn dechrau  
agosáu at Gwenllian  
ac yn pwyntio  
ati hi  
gyda'i arf  
...yn barod  
i'w saethu hi.*

***Yn sydyn***  
*mae fflach anferth  
yn llenwi'r ystafell  
ac mae dyn  
mewn dillad  
glas, piws, melyn a choch  
yn ymddangos.*



Fflach : Ddim mor gyflym, Iorg.

Iorg : Fflach Eirias!  
Felly,  
**dyn ni'n cyfarfod**  
unwaith eto.  
**Ond am y tro olaf,**  
yn anffodus  
i ti.

*Mae'r Ymherawdr Iorg  
yn pwyntio'i arf  
at Fflach.*

Iorg : Nos da, Fflach.

*Yn sydyn  
mae Gwenllian yn cael  
syniad ardderchog.*

*Mae hi'n gwneud  
olwyn cert  
**ar draws yr ystafell**  
ac yn glanio  
yn ymyl yr argraffydd.  
**Mae hi'n gafael**  
yn y wifren  
sy'n cysylltu'r cyfrifiadur  
a'r argraffydd laser.  
Heb feddwl eilwaith  
**mae hi'n tynnu'n gryf**  
ar y wifren  
gan ei datgysylltu  
o'r argraffydd.*

*Mae'r Ymherawdr Iorg  
yn gweiddi.*

Iorg :           Naaaaaaaa.....  
                  **Bydda i nôl!**

*Ac mae e'n diflannu.*



*Dyw Fflach a Gwenllian  
ddim yn symud  
nac yn dweud dim byd  
am dipyn.*

*Yna, ar ôl  
rhyw hanner munud  
mae Fflach yn troi at Gwenllian*

Fflach : Symudiad diddorol!

Gwenllian : Diolch.  
**Ôn i'n arfer bod**  
yn aelod  
o dîm gymnasteg merched  
Ysgol Aberteifi.

*(R)ôn i, (R)oeddet ti, (R)oedd e, (R)oedd hi,  
(R)oedden ni, (R)oeddech chi, (R)oedden nhw*

Fflach : Ah .... Dw i'n gweld.

*Mae'r ddau'n ymdawelu  
unwaith eto.  
Mae'r ystafell  
fel y bedd.*

*Yn sydyn  
mae'r ffôn yn canu.  
Mae Gwenllian  
yn hollol reddfol  
yn ateb y ffôn.*

Gwenllian : Bore da.  
Cyngor Sir Ceredigion.  
**Alla i'ch helpu chi?**

Rachael : Shw'mae Gwenllian,  
Rachael sy'ma  
o Adran y Prif Weithredwr.  
Ynglŷn â'r adroddiad'na  
oedden ni  
i fod i'w e-bostio  
atoch chi  
heddiw.....  
**Yn anffodus**  
**dyn ni wedi cael problem** ofnadwy  
gyda SPAM  
yn y swyddfa.

Gwenllian : Dych **chi** 'di cael problem  
gyda SPAM!?!  
Wel **gwrandewch** ar hyn.....

# *Y Diwedd*




*(Wel.....tan wythnos nesaf)*

# *Lluniau gan Joan Miró*




*Yr Aderyn yn Dangos ei Blu*




*Yr Haf*



*Gardd*



*Cân Yr Eos am Hanner Nos a Glaw y Bore*



*Joan Brossa – Cerdd i Joan Miro*



*Pysgodyn yn Canu*



*Ysgolion yn Croesi Awyr Las mewn Olwyn o Dân*






*Menyw o flaen yr Haul*



*Neges gan Gyfaill*



*Menyw yn Eistedd*




*Aur y Glas*



*Haul Coch*



*Cofleidiad y Sêr*



*Y Seren Las*



*Personau gyda Seren*

